**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) (Diwygio) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) (Diwygio) 2023.

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
10 Mawrth 2023

## RHAN 1

### 1) Disgrifiad

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud â Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) (Diwygio) 2023. Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 14(1) a (2) a 198(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"), ac yn dilyn gweithredu Rhan 4 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ("Deddf 2020").

Sefydlodd Rhan 4 o Ddeddf 2020 Gorff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru ("y Corff"). Amcan cyffredinol y Corff, wrth arfer ei swyddogaethau, yw cynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Disgwylir i'r Corff fod yn gweithredu'n llawn o 1 Ebrill 2023 ymlaen. I helpu i sefydlu'r Corff o 1 Ebrill 2023 ymlaen, mae angen diwygiadau i Reoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015 ("y prif Reoliadau"). Mae'r prif Reoliadau yn ymwneud â chynnwys asesiadau, a'r broses ar gyfer asesiadau, o anghenion am ofal a chymorth, cymorth ar gyfer gofalwyr a gwasanaethau ataliol gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i'r prif Reoliadau i sicrhau bod rhaid i gyrff cyfrifol (awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol), wrth gynnal asesiad poblogaeth, ymgysylltu ag unrhyw gorff cyhoeddus y maent yn credu ei fod yn ymwneud â darparu gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol, neu fod ganddo fuddiant mewn darparu gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol, i'r boblogaeth leol. Disgwylir y byddai corff cyhoeddus o'r fath felly yn cynnwys y Corff. Bydd hyn hefyd yn alinio'r gofynion ymgysylltu mewn perthynas ag asesiadau o anghenion y boblogaeth â'r gofynion ymgysylltu sydd eisoes yn gymwys i gyrff cyfrifol mewn perthynas â'r cynlluniau ardal sy'n deillio o'r asesiadau hynny (gweler Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017, a wnaed o dan adran 14A o Ddeddf 2014).

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae adran 14(1) o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol asesu ar y cyd y materion a nodir yn adran 14(1)(a) i (f) o Ddeddf 2014, sy'n cynnwys materion megis i ba raddau y mae yna bobl yn ardal yr awdurdod lleol y mae arnynt angen gofal a chymorth, ac i ba raddau y mae yna ofalwyr yn ardal yr awdurdod lleol y mae arnynt angen cymorth. Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adrannau 14(1) a (2) o Ddeddf 2014, sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ar gyfer cynnal yr asesiadau hyn (y cyfeirir atynt fel "asesiadau poblogaeth"). Mae adran 198(1) o Ddeddf 2014 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth

atodol a chanlyniadol at ddibenion rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf honno. Gwneir y Rheoliadau o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol, a deuant i rym ar 1 Ebrill 2023.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau angenrheidiol yn sgil sefydlu'r Corff. Yn benodol, maent yn diwygio'r prif Reoliadau i sicrhau bod rhaid i gyrff cyfrifol (awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol), wrth gynnal asesiad poblogaeth, ymgysylltu ag unrhyw gorff cyhoeddus y maent yn credu ei fod yn ymwneud â darparu gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol, neu fod ganddo fuddiant mewn darparu gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol, i'r boblogaeth leol. Disgwylir y byddai corff cyhoeddus o'r fath felly yn cynnwys y Corff. Mae hyn yn alinio â'r gofynion sydd eisoes yn bodoli mewn perthynas â'r cynlluniau ardal sy'n deillio o'r asesiadau hynny fel y nodir yn Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017.

**5. Ymgynghori**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad yn benodol ar y Rheoliadau hyn, sydd, yn bennaf, yn gwneud mân ddiwygiad i'r prif Reoliadau i sicrhau y gellir cyflawni amcanion Deddf 2020 yn briodol. Cynhaliwyd ymgynghoriad blaenorol ar y polisi perthnasol yn Neddf 2020.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn gan mai mân ddiwygiadau i ddeddfwriaeth bresennol y maent yn eu gwneud. Mae hyn yn gyson â'r polisi a nodir yng Nghod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.